

ADRODDIAD I'R CABINET
13 IONAWR 2015

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: **CYLLIDEB 2015/16: DYGYMOD GYDA'R BWLCH ARIANNOL**

Swyddog cyswllt: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

1. Gofynnir i'r Cabinet ystyried cyfuniad o'r camau canlynol ar gyfer cau'r bwlch yng nghyllideb 2015/16:
 - Cynyddu'r Dreth Cyngor uwchben 3.5%
 - Gweithredu'r Adolygiad Strategol Priffyrdd a Bwrdeistrefol
 - Sicrhau Arbedion o gyllidebau datganoledig Ysgolion
 - Gofyn i'r Adrannau brysuro cynlluniau arbedion effeithiolrwydd
 - Pontio o'r Balansau am 2015/16
 - Gweithredu'r Strategaeth Toriadau yn amserol
-

Cyflwyniad / Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 16 Medi, bu'r Cabinet yn ystyried y cyfeiriad ar gyfer ymdrin â'r bwlch ariannol y byddwn yn ei wynebu dros y blynyddoedd i ddod gan gytuno ar rai opsiynau allweddol ar gyfer dygymod gyda'r bwlch. Bwriad yr adroddiad yma yw nodi lle ydan ni arni ynglŷn â sefydlu cyllideb gytbwys yn 2015/16 (er gwaethaf yr her ariannol o'r setliad) ac i amlinellu'r dewisiadau sydd ar ôl i'w gwneud a'r camau nesaf yn y broses.
3. Yng nghyfarfod 16 Medi o'r Cabinet, nodwyd pe byddai'r grant gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol yn gostwng 4.5% (yn lle'r ffigwr mynegol 1.5%), yna byddai'r bwlch ariannol i Gyngor Gwynedd ar gyfer 2015/16 yn cynyddu o £9.6m i £13.1m.
4. Wrth i bob wythnos fynd heibio, mae'r ffigyrau yn newid wrth i'r wybodaeth ddiweddaraf ddod i law, ond bellach credaf fod y rhan fwyaf o'r ffigyrau perthnasol ar gyfer 2015/16 gennym fel bod modd dod i gasgliad eithaf cadarn ar ba mor hyfyw yw ein cynllun ar gyfer y flwyddyn honno. Erys rhai elfennau lle nad yw'r wybodaeth yn ddigon cadarn i fod yn hollol sicr, ond at ddibenion sefydlu'r strategaeth, mae yna ddigon o sicrwydd i ddod at gasgliadau cynllunio fel a ganlyn.

Y Bwlch yng Nghyllideb 2015/16

5. Mae'r ffactorau canlynol wedi cyfrannu tuag at fwllch £13.7m a welir erbyn hyn:

Gwahaniaethau ers ein rhagdybiaethau am 2015/16 yn Chwefror 2014

Anffafriol:	£'000	£'000
Setliad anffafriol Llywodraeth Cymru	2,700	
Cost cyfalaf uwch na'r disgwyl	200	
Trosglwyddiadau i mewn	300	
Eraill (gostyngiad incwm, ayb)	200	
Is-Gyfanswm Ffactorau Negyddol:		3,400
Ffatriol:		
Chwyddiant Tâl is	900	
Chwyddiant Tâl Athrawon is, net o gost pensiwn uwch	200	
Chwyddiant Prisïau is	500	
Incrementau Cyflog net o Drosiant	300	
Praeseptau ddim yn codi	200	
Derbyniad llog uwch	200	
Cynnydd Demograffi is	100	
Cynllun Cymorth Treth Cyngor – cyfraniad is	200	
Strategaeth Gwastraff – gofyn llai	900	
Is-Gyfanswm Ffactorau Positif:		3,500
Gwahaniaeth Net:		100
Diffyg rhagwelwyd erbyn 2015/16 yn Chwefror:		13,800
Diffyg rhagwelir erbyn 2015/16 yn Rhagfyr:		13,700

(mae'r amcangyfrifon uchod i'r £100,000 agosaf, gan eu bod i bwrpasau cynllunio strategol)

Cau'r Bwlch

6. Ar sail ein polisiâu blaenorol a'r wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys setliad terfynol -4.0%, nodir isod grynodedb o'r sefyllfa fel ymddengys ar hyn o bryd, ac mae angen rhai penderfyniadau anodd er mwyn cau'r bwlch.

	£'000
Diffyg a ragwelir	13,700
<u>Llai:</u> Arbedion effeithiolrwydd wedi'u cynllunio erbyn 2015/16	6,170
Cynnydd yn y Dreth Cyngor @ 3.5%	1,930
Balans i'w ddarganfod:	5,600

Strategaeth Hirdymor

7. Yn y tymor-canol, bydd angen parhau gyda'r strategaeth arbedion / toriadau 2014/15 – 2017/18, a gosod amserlen bendant ar ei gyfer. Er bod sawl symudiad o fewn y cyfanswm net, mae'r bwlch i'w ddarganfod dros y cyfnod rhwng eleni a 2017/18 yn parhau i fod tua £34m. Gall sawl mater, yn arbennig, setliad am grant 2016/17 a 2017/18, ddylanwadu eto ar hynny. Am y tro, awgrymaf dylid parhau i weithio gyda'r targedau a osodwyd eisoes.

Cynllun ar gyfer 2015/16

8. Fe welir felly ein bod angen cau bwlch o £5.6m yn 2015/16, a hynny os oes modd cyfyngu bidiau anorod i £1m, er gwaetha'r pwysau sy'n dod drwodd o'r gwasanaethau. Hefyd, mae'r ffigwr arbedion effeithlonrwydd £6.17m yn cynnwys gwireddu'r cyfan a gyflwynir rŵan ar gyfer 2015/16. Gan gymryd fod y cynlluniau arbedion effeithlonrwydd cyfredol eisoes yn cynnwys ystyriaethau fel codi ffioedd, ayb, prin yw'r dewisiadau er mwyn cau'r bwlch o £5.6m ac ymddengys mai'r rhai mwyaf ymarferol i'w gweithredu yw –

- Cynyddu'r Dreth Cyngor yn uwch na 3.5%;
- Gweithredu'r adolygiad strategol o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol;
- Cwtogi'r gyllideb ysgolion;
- Pysuro rhai cynlluniau arbedion effeithiolrwydd adrannol o 2016/17 i 2015/16;
- Gweithredu rhaglen o doriadau gwasanaeth;
- Defnyddio balansau i bontio i'r gyfundrefn toriadau.

Cynyddu'r Dreth Cyngor

9. Mae pob 0.1% o gynnydd yn y Dreth Cyngor yn cynhyrchu tua £56,000.

Adolygiad Strategol Priffyrdd

10. Nid yw materion dan sylw'r Adolygiad Strategol Priffyrdd wedi'u cynnwys gyda'r cynlluniau arbedion effeithiolrwydd eraill yn y cyfanswm (£6.17m) uchod.
11. Bydd yr adolygiad yn sicr o awgrymu y gellid lleihau elfen o'r gyllideb cynnal ffyrdd heb gael effaith andwyol yn syth ond hyd nes y bydd y Cabinet wedi gweld yr adroddiad a dod i benderfyniad ni ellir bod yn sicr beth yw'r maint y dylid ei gymryd i ystyriaeth.

Cwtogi'r gyllideb ysgolion

12. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi comisiynu gwaith gan gynrychiolwyr penaethiaid, llywodraethwyr ac aelodau i adnabod sut gellid arbed £4.3m dros 2015/16 – 2017/18. Gellid disgwyl i'r Fforwm/Gweithgor adnabod cyfraniad o'r arbedion yn 2015/16. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi "addewid" y bydd cyllidebau ysgolion yn cynyddu 0.6% yn 2015/16, ond bydd cynnydd am gyfraniadau pensiwn uwch a chwyddiant yn fwy na bodloni'r "addewid".

Prysuero Cynlluniau Arbedion

13. Mae trafodaethau ar droed gyda phenaethiaid sawl adran i adnabod cynlluniau arbedion effeithiolrwydd gellid gweithredu yn 2015/16 yn lle 2016/17.

Defnyddio Balansau

14. Adnodd un-tro yw'r balansau cyffredinol, felly nid wyf yn argymhell eu defnyddio'n barhaol yn lle arbedion / toriadau. Fodd bynnag, lle mae cynlluniau i dorri yna gellid defnyddio balansau un-tro er mwyn pontio a chaniatáu amser i flaenoriaethu yn gynhwysol.

Argymhelliad

15. **Gofynnir i'r Cabinet ystyried a chynnig cyfeiriad ar gyfuniad o gamau ar gyfer cau'r bwlch yng nghyllideb 2015/16 gan nodi'n benodol os oes unrhyw un o'r elfennau yn faterion na ddylid eu hystyried.**

Camau nesaf ac amserlen

16. Yn amlwg, yn dilyn sicrhau fod y cynllun ar gyfer 2015/16 yn hyfyw, bydd angen sicrhau fod y Cyngor yn derbyn strategaeth o'r fath a bwriedir adrodd yn fanwl i'r Cabinet ar y strategaeth i:
 - Cabinet ffurfiol 13 Ionawr 2015
 - Seminarau Aelodau:
 - Pwllheli** - Dydd Mercher 4 Chwefror 2015 2:00pm
 - Penrhyndeudraeth** - Dydd Iau 5 Chwefror 2015 10:00am
 - Dolgellau** - Dydd Gwener 6 Chwefror 2015 10:00am
 - Caernarfon** - Dydd Mercher 11 Chwefror 2015 10:00am
 - Pwyllgor Archwilio / Cabinet ar 17/19 Chwefror 2015 i drafod yr opsiynau terfynol
 - Cyngor llawn 5 Mawrth 2015

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r Cyngor hwn wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol am ei gynllunio ariannol doeth tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r newidiadau polisi o du Llywodraeth Cymru wedi gwneud y cynllunio ariannol hynny'n anoddach nag erioed o ran maint yr her, y rhybudd annigonol ar gyfer ymateb iddo a hefyd yr ansicrwydd o ran peth o'r wybodaeth yn y setliad.

Yng ngwyneb yr her o'n blaenau, mae'n rhaid i'r Cabinet, a'r Cyngor llawn maes o law, edrych ar amryw o opsiynau ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol yn y flwyddyn ariannol nesaf ac mae'r adroddiad sydd gerbron yn amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael. Yn amlwg, mae rhai ohonynt yn llai dymunol nag eraill ond mae'r her ariannol yn golygu bod yn rhaid wynebu penderfyniadau fel hyn gan gofio bod unrhyw fethiant i wneud penderfyniad anodd heddiw yn gwneud y penderfyniadau sydd i ddod hyd yn oed yn fwy anodd. Rhaid cofio hefyd y bydd y math o benderfyniadau y bydd yn rhaid eu hwynebu maes o law am dorri gwasanaethau rheng flaen yn fwy heriol eto.

Diau mai cyfuniad o'r materion a nodir yn yr adroddiad a fydd yn ganlyniad y drafodaeth. Yr hyn na all y Cyngor ei wneud yw peidio â wynebu'r penderfyniadau hyn.

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Dim